**Cyngor Bro Morgannwg – Fframwaith Lefelau Sgiliau Iaith Gymraeg**

**Siarad**

| | |
|---|---|
| **Basig**<br><br>Lefel Dysgu Cymraeg: Mynediad<br><br>CEFR A1 | Defnyddio mynegiadau pob dydd cyfarwydd, e.e. cyfarchion, diolch. Ynganu enwau lleoedd ac enwau pobl. Siarad am bethau personol iawn mewn sefyllfa anffurfiol, e.e. diddordebau, teulu, gwaith, beth wnaethoch chi ddoe. Siarad am bynciau syml, e.e. y tywydd, amser, prisiau. |
| | Rydw i'n gallu: Ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau. Cyflwyno fy hun a dweud teitl fy swydd, adran a ble rydw i'n gweithio. Defnyddio cyfarchion, er enghraifft, bore da, prynhawn da, hwyl fawr, sut dych chi? Iawn, diolch. Defnyddio ymadroddion a gofyn cwestiynau syml, er enghraifft, Ga i'ch helpu chi? Cyflwyno fy hun. (Enw) sy'n siarad. Dydw i ddim yn gallu siarad Cymraeg Un munud, os gwelwch yn dda. |
| **Cymwys**<br><br>Lefel Dysgu Cymraeg: Sylfaen<br><br>CEFR A2 | Cynnal sgwrs syml â rhywun arall am bynciau pob dydd cyffredin, os yw'r siaradwr arall yn helpu. Gofyn ac ateb cwestiynau am bynciau cyfarwydd, e.e. gwaith, diddordebau, hoffterau, pethau sydd wedi digwydd neu gynlluniau yn y dyfodol. |
| | Rydw i'n gallu: Gofyn a fyddai'n well gan rhywun siarad yn y Gymraeg, dweud 'rydw i'n dysgu'r Gymraeg' / 'rydw i'n gallu siarad ychydig bach o Gymraeg' a gofyn i rywun siarad yn araf neu ailadrodd. Rydw i'n gallu esbonio os yw unigolyn ar gael i helpu, ymddiheuro ac esbonio pryd bydd rhywun yn cysylltu â'r cwsmer. Rydw i'n gallu gofyn 'sut alla i helpu?' a gofyn i rywun ddal y lein wrth drosglwyddo'r alwad. Rydw i'n gallu gofyn i rywun lofnodi mewn a rhoi cyfarwyddiadau syml. |
| **Da**<br><br>Lefel Dysgu Cymraeg: Canolradd<br><br>CEFR B1 | Cynnal sgwrs estynedig â siaradwr rhugl am bwnc cyfarwydd, e.e. diddordebau neu'r gwaith. Mynegi barn a chyfnewid gwybodaeth am ystod o bynciau sy'n ymwneud â bywyd pob dydd, e.e. diddordebau, teithio, neu bynciau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith. |
| | Rydw i'n gallu: Bod yn rhan o sgwrs syml sy'n ymwneud â maes fy ngwaith. Mae'n bosib y bydd angen i fi droi at y Saesneg i drafod/rhoi gwybod am wybodaeth gymhleth neu dechnegol. Ateb cwestiynau rhagfynegadwy neu ffeithiol. Cynnig cyngor ynglŷn â materion sy'n ymwneud â'r swydd. Mynegi barn syml sy'n ymwneud â fy ngwaith. |
| **Rhugl**<br><br>Lefel Dysgu Cymraeg: Uwch<br><br>CEFR B2 | Siarad yn hyderus â siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd sy'n ymwneud â bywyd pob dydd neu waith. Mynegi barn, cymryd rhan mewn sgwrs, a siarad yn helaeth am bynciau cyffredin, e.e. mewn cyfarfod, neu mewn sefyllfa un-i-un. |
| | Rydw i'n gallu: Cynnal sgwrs anffurfiol estynedig gyda rhuglder a gan ddefnyddio ystod o ymadroddion yng nghyd-destun fy swydd. Mae'n bosibl y bydd angen i fi ofyn am eglurhad yn y Saesneg os yw iaith gymhleth neu dechnegol yn cael ei defnyddio. Cyfrannu at gyfarfodydd mewn modd effeithiol. Mynegi barn sy'n ymwneud â maes fy swydd. |
| **Rhugl+**<br><br>Lefel Dysgu Cymraeg: | Eich mynegi eich hun yn llawn ac yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth. Addasu arddull eich iaith yn ôl y gynulleidfa, e.e. wrth siarad mewn cyd-destun ffurfiol neu wrth siarad â chydweithwyr. Siarad yn helaeth am fater cymhleth, cyflwyno dadleuon, ac arwain y drafodaeth. |

| | |
|---|---|
| Gloywi / Hyfadredd<br><br>CEFR C1 | Rydw i'n gallu: Siarad am faterion cymhleth ac arferol yng nghyd-destun fy swydd, a rhoi cyngor i eraill amdanyn nhw. Rhoi cyflwyniad/arddangosiad. Ymdopi â chwestiynau anrhagweladwy neu heriol mewn modd hyderus. Cynnal trafodaethau gan ddefnyddio termau cymhleth/technegol. Cynnal/cymryd rhan mewn cyfweliad am swydd. Rhoi cyfweliadau i'r cyfryngau. |

**Deall**

| | |
|---|---|
| **Basig**<br><br>Lefel Dysgu Cymraeg: Mynediad<br><br>CEFR A1 | Deall mynegiadau pob dydd, ac ymadroddion syml iawn os yw'r siaradwr yn siarad yn araf. Deall sgyrsiau am wybodaeth bersonol syml, e.e. ble mae rhywun yn byw, gweithio, beth maen nhw'n hoffi ei wneud, beth wnaethon nhw. Dyfalu beth fydd rhywun yn ei ddweud pan fyddan nhw'n rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau, fel amser a lleoliad. |
| | Rydw i'n gallu: Deall cyfarchion, gwybodaeth syml, er enghraifft, enw, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost a'u nodi nhw ar bapur. Deall ceisiadau, e.e. Ga i siarad â…? Hoffwn i siarad yn y Gymraeg. |
| **Cymwys**<br><br>Lefel Dysgu Cymraeg: Sylfaen<br><br>CEFR A2 | Deall pan fydd pobl yn siarad am sefyllfaoedd pob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol, gwaith, beth maen nhw wedi ei wneud neu beth fasen nhw'n ei wneud, cyhyd â'u bod yn siarad yn araf. Deall pan fydd pobl yn gofyn i chi neu rywun arall wneud rhywbeth, a phan fyddan nhw'n gofyn am gynlluniau yn y dyfodol, e.e. am gyfarfod. |
| | Rydw i'n gallu: Deall cwestiynau ac ymholiadau syml, er enghraifft deall â phwy mae'r unigolyn eisiau siarad a natur yr ymholiad. Rydw i'n gallu gofyn am eglurhad os oes angen. Deall natur sgyrsiau syml yn y gweithle e.e. sut mae cydweithiwr yn teimlo neu gais syml, a ble mae rhywun/rhywbeth. |
| **Da**<br><br>Lefel Dysgu Cymraeg: Canolradd<br><br>CEFR B1 | Deall gwybodaeth sy'n cael ei rhoi am bynciau pob dydd, neu pan fydd pethau'n ymwneud â'r gwaith yn cael eu trafod, e.e. mewn sgwrs, neu mewn cyfarfod grŵp bach. Deall y brif neges a'r manylion, os yw'r bobl yn siarad yn glir, e.e. wrth glywed hysbysiadau neu wrth wrando ar fwletin newyddion. |
| | Rydw i'n gallu: Nodi a throsglwyddo negeseuon ar lafar. Deall llawer o'r hyn sy'n cael ei ddweud yn y gweithle neu mewn cyfarfod. |
| **Rhugl**<br><br>Lefel Dysgu Cymraeg: Uwch<br><br>CEFR B2 | Dilyn y rhan fwyaf o sgyrsiau a thrafodaethau, hyd yn oed am bynciau sy'n anghyfarwydd i chi. Deall y rhan fwyaf o raglenni teledu a radio ar gyfer siaradwyr iaith gyntaf, oni bai eu bod yn siarad ag acen gref, anghyfarwydd. |
| | Rydw i'n gallu: Deall iaith lafar anffurfiol a gweddol ffurfiol sy'n cael ei defnyddio yn y gweithle, e.e. mewn cyfarfodydd, cyflwyniadau, cyfweliadau a thrafodaethau. |
| **Rhugl+**<br><br>Lefel Dysgu Cymraeg: Gloywi / Hyfadredd<br><br>CEFR C1 | Dilyn pob sgwrs a thrafodaeth rhwng eraill, ar bob math o bynciau. Deall pob math o Gymraeg llafar, gan gynnwys darlithiau neu drafodaethau cymhleth. |
| | Rydw i'n gallu: Deall pob sgwrs yng nghyd-destun fy swydd. Deall iaith gymhleth ac arbenigol sy'n cael ei defnyddio mewn cyfarfodydd, cyflwyniadau, trafodaethau, sgyrsiau a chyfweliadau. |

**Darllen**

| | |
|---|---|
| **Basig**<br><br>Lefel Dysgu Cymraeg: Mynediad<br><br>CEFR A1 | Deall brawddegau byr iawn, ac yn gallu dyfalu beth mae rhai hysbysiadau yn ei feddwl. Deall testunau byr lle mae pobl yn rhoi gwybodaeth syml amdanynt eu hunain neu eraill. Cael hyd i fanylion fel arfer, fel amserau a phrisiau, mewn hysbysebion neu hysbysiadau |
| | Rydw i'n gallu: Deall geiriau allweddol syml sy'n berthnasol i fy swydd, er enghraifft: Enw cyntaf, Cyfenw, Rhif Ffôn, Cyfeiriad Ebost, Teitl Swydd, Rhif Staff, Adran, Rheolwr Llinell, Lleoliad, Derbynfa, Swyddfa, Allanfa Dân, Mynedfa, Annwyl…, Cofion. |
| **Cymwys**<br><br>Lefel Dysgu Cymraeg: Sylfaen<br><br>CEFR A2 | Deall negeseuon am bethau bob dydd, a rhai llythyron neu negeseuon e-bost syml iawn, e.e. yn gofyn am rywbeth, neu'n gofyn i basio neges ymlaen. Deall testunau byr neu lyfrau syml iawn, e.e. llyfrau i blant |
| | Rydw i'n gallu: Deall gwybodaeth ffeithiol syml mewn neges, llythyr neu bamffled, e.e. cais syml am wybodaeth neu apwyntiad. |
| **Da**<br><br>Lefel Dysgu Cymraeg: Canolradd<br><br>CEFR B1 | Deall erthyglau syml uniongyrchol am bynciau o ddiddordeb pob dydd, neu'n ymwneud â'r gwaith. Dyfalu beth mae gair yn ei feddwl o'r cyd-destun, pan fydd y pwnc yn gyfarwydd. Deall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost a dogfennau sy'n ymwneud â gwaith. |
| | Rydw i'n gallu: Darllen a deall amrywiaeth o destunau yng nghyd-destun fy swydd ble mae iaith safonol yn cael ei defnyddio gyda chymorth geiriadur, e.e. e-byst, llythyrau, nodiadau. |
| **Rhugl**<br><br>Lefel Dysgu Cymraeg: Uwch<br><br>CEFR B2 | Deall y rhan fwyaf o ohebiaeth, a sganio trwy destunau hir i gael hyd i fanylion. Deall y rhan fwyaf o erthyglau papur newydd ac adroddiadau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer siaradwyr iaith gyntaf, gyda chymorth geiriadur. Deall nofelau a thestunau eraill, oni bai eu bod wedi eu hysgrifennu mewn arddull ffurfiol neu lafar iawn. |
| | Rydw i'n gallu: Darllen a deall y rhan fwyaf o ddeunydd yng nghyddestun fy swydd sydd ddim yn cynnwys gwybodaeth gymhleth neu dechnegol gyda chymorth geiriadur a thrwy wirio gyda siaradwr Cymraeg. Hynny yw, e-byst, llythyrau, nodiadau, adroddiadau, cofnodion cyfarfod, ffurflenni cais. |
| **Rhugl+**<br><br>Lefel Dysgu Cymraeg: Gloywi / Hyfadredd<br><br>CEFR C1 | Darllen a deall bron pob testun ysgrifenedig yn hawdd, gan droi weithiau at eiriadur. Darllen testunau hir, e.e. adroddiadau, erthyglau, i gael hyd i fanylion perthnasol a deall bron pob math o ysgrifennu, e.e. ffurfiol neu anffurfiol. |
| | Rydw i'n gallu: Deall gwybodaeth a syniadau mewn dogfennau, adroddiadau, gohebiaeth, cofnodion, ceisiadau ac erthyglau, sy'n cael eu cyfleu mewn iaith gymhleth neu iaith arbenigol. |

**Ysgrifennu**

| | |
|---|---|
| **Basig**<br><br>Lefel Dysgu Cymraeg: Mynediad<br><br>CEFR A1 | Ysgrifennu ymadroddion neu frawddegau syml amdanoch chi eich hunan neu eraill. Trosglwyddo negeseuon syml neu wneud cais syml, e.e. trwy e-bost. |
| | Rydw i'n gallu: Cwblhau ffurflen syml gan nodi gwybodaeth er enghraifft Enw Cyntaf, Cyfenw, Cyfeiriad, Rhif Ffôn, Cyfeiriad Ebost, Teitl Swydd, Rhif Staff, Adran, Rheolwr Llinell, Lleoliad. Nodi gwybodaeth sy'n cael ei chyfleu ar lafar er enghraifft, enw, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost. |
| **Cymwys**<br><br>Lefel Dysgu Cymraeg: Sylfaen<br><br>CEFR A2 | Ysgrifennu nodyn byr at ffrind neu gydweithiwr yn gofyn am rywbeth, yn diolch iddynt neu egluro rhywbeth, e.e. absenoldeb o'r gwaith. Ysgrifennu testun byr am bwnc cyfarwydd, e.e. profiad personol, neu brofiad sy'n ymwneud â'r gwaith. |
| | Rydw i'n gallu: Ysgrifennu nodiadau/neges fer a syml gan gynnwys ymadroddion ar ddechrau ac ar ddiwedd e-bost, ymddiheuro, esbonio pryd bydda i neu fydd rhywun arall ar gael / yn gallu delio â'r ymholiad. |
| **Da**<br><br>Lefel Dysgu Cymraeg: Canolradd<br><br>CEFR B1 | Ysgrifennu llythyr am y rhan fwyaf o bynciau, gofyn am bethau, rhoi esboniadau, disgrifio profiadau, gwahodd pobl, neu drefnu digwyddiadau. Ysgrifennu'n eithaf cywir am y rhan fwyaf o bynciau, e.e. sy'n ymwneud â diddordebau neu'r gwaith |
| | Rydw i'n gallu: Ysgrifennu e-byst a llythyr ffurfiol sy'n ymwneud â maes fy swydd, gan sicrhau ei fod yn cael ei wirio gan berson sy'n siarad Cymraeg. Paratoi nodiadau personol sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n cael ei chyfleu ar lafar. |
| **Uwch**<br><br>Lefel Dysgu Cymraeg: Uwch<br><br>CEFR B1 | Ysgrifennu erthygl, adolygiad neu adroddiad byr am amrywiaeth o bynciau cyffredinol eu natur, neu sy'n ymwneud â'r gwaith. Ysgrifennu testunau manwl sydd wedi ei strwythuro'n dda, sy'n briodol i'r darllenydd. Ymateb yn gywir i'r rhan fwyaf o ohebiaeth gan gydweithwyr neu gysylltiadau allanol. |
| | Rydw i'n gallu: Paratoi llythyrau cyfarwydd ffurfiol, er enghraifft, ymholiadau, cwynion, dymuniadau a cheisiadau ac ymateb iddyn nhw. Paratoi nodiadau o gyfarfodydd a nodiadau arddweud syml sy'n weddol gywir. Paratoi adroddiad / dogfen syml yng nghyd-destun fy swydd. Mae'n bosibl y bydd angen i siaradwr Cymraeg wirio'r gwaith yma. |
| **Rhugl**<br><br>Lefel Dysgu Cymraeg: Gloywi / Hyfadredd<br><br>CEFR C1 | Ysgrifennu testunau, adroddiadau, erthyglau, cofnodion neu fathau eraill o destun estynedig mewn arddull sy'n briodol i'r darllenydd. Ysgrifennu mewn Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol fel y bo'r angen. Ysgrifennu'n gywir iawn am ystod helaeth o bynciau. |
| | Rydw i'n gallu: Paratoi llythyrau anffurfiol a ffurfiol am unrhyw bwnc. Paratoi cofnodion llawn a chywir o gyfarfodydd gan barhau i ddilyn sgyrsiau a chyfrannu atyn nhw. Paratoi adroddiadau a dogfennau gyda chymorth gwirydd sillafu/gramadeg. |